Tudalen 1-12 Gorff_Tud 8 Mehefin.qxd 21/06/2015 11:33 Page 1


# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 37. RHIF 2 | GORFFENNAF 2015 | 50c


# Cofio'r Mimosa a'r Wladfa Gymreig yn denu'r Cymry a'r Gwladfawyr i Lerpwl – *gan y Golygydd*

Wrth wylio rhaglen nodedig y Dr. Huw Edwards ar y Wladfa ar S4C nid oedd amheuaeth o gwbl nad oeddem wedi dathlu yn deilwng o aberth, anturiaeth, gweledigaeth ac ymroddiad Pwyllgor Lerpwl (1861-65) a theithwyr ar y llong Mimosa. Cofier fod gelynion di-ri i'r fenter yn yr Unol Daleithiau a Chymru, ie, a hyd yn oed Lerpwl. Er huodloedd Cymry Lerpwl (rhyw ddwsin ohonynt ar y mwyaf), cael a chael fu'r fenter. Trwy aml i weddi daer, argyhoeddiadau y Parchedig Michael D. Jones, cafwyd 163 yn barod i'r daith bell o saith mil o filltiroedd. Tanlinellwyd y stori yn fyw gan gymaint o'r siaradwyr yr Ŵyl, Susan Wilkinson o Toronto, awdur y gyfrol Saesneg ar y Mimosa; Wayne Jones, Llandeilo gyda'r llun gwreiddiol o'r llong hwyliau, minnau ar y cefndir, Elvey Macdonald yn ei ddarlith gynhwysfawr; actorion ieuanc, pedwar ohonynt o Clwyd Theatr Cymru yn eu cyflwyniad bythgofiadwy o siwrnai y Mimosa dros y moroedd am ddau fis; anerchiadau yr Athro Huw Rees yn y Cyngerdd a David Mawdsley yn y Gymanfa Ganu a'r cennad yn Oedfa'r bore ar thema'r freuddwyd. Yr oedd y Parchedig R. W. Jones, Wrecsam yn clymu gweledigaeth y Cymry cynnar a'n gweledigaeth ni heddiw fel dilynwyr Iesu.

Beth sydd yn aros o Ŵyl y Mimosa? Dywedwn i fod yna ddeg o argraffiadau na allwn fyth ei anghofio.

**1) Y Tyrfaoedd.** Ni chafwyd ers o leiaf 50 mlynedd gymaint o bobl wedi dod ynghyd i Lerpwl i ddathlu unrhyw ddigwyddiad o gefndir ein cenedl. Y tro diwethaf yn 1965 ond dathlu siwrnai ar long y *Royal Daffodil* oedd y dathlu hwnnw. Tair awr o daith ac yna cafwyd ar fwrdd y llong, gwasanaeth crefyddol a dau o blant y Wladfa oedd yn Weinidogion yn y Cyfundeb yn cymeryd rhan, canu emynau, Parti Meibion Birkenhead yn canu, a Gwladys Lloyd Williams, Allerton, Parti Dawns Aelwyd yr Wyddgrug, Parti Adrodd Aelwyd y De, Alwyn Jones, Huw Jones, y Bala yn arwain a gair o gyfarchiad o Lerpwl. Dim byd arall, ond rhaglen 4 tudalen, i gymharu y tro hwn a llawlyfr o 58 tudalen. Anodd dweud faint oedd yn Lerpwl ar Mai 29, 1965, ond maentumia y *Liverpool Daily Post* fod yna 1,500. Os felly faint oedd yn bresennol ar 29-31 Mai 2015? Maentumiaf fod mwy yn bresennol rhwng y saith sesiwn a gawsom! Fy amcangyfrif felly yw dwy fil a chant o bob rhan o Gymru a Lloegr, Iwerddon, Canada, Patagonia, Llundain a holl ddinasoedd y Gogledd Orllewin fel Caer, Penbedw, Wallasey, Knowsley, Warrington, Manceinion. Daeth 44 o'r Wladfa ac yr oedd hynny yn bonws mawr, a braf oedd clywed lleferydd Marli Pugh, Irma Roberts, Wendell Davies a Luned Vychan Roberts de Gonzales.



*Dr. Huw Edwards yn llongyfarch Elan Jones ar fin dadorchuddio'r gofeb*

*Lluniau gan: Rhys Llywelyn a Dafydd Ll. Rees*

**ii) Llwyddo i roddi proffil mor unigryw i Ddathlu Canmlynedd a Hanner y Wladfa.** Pan edrychir ar y Cyflwyno a gafwyd ar y *Royal Daffodil* a'r anerchiadau a gymerodd le yn Ystafell helaeth Pencadlys Peel Holdings yn 12 Princes Parade a'r arweinwyr a dderbyniodd fy ngwahoddiad i'r Cyfarfod i Ddadorchuddio y Gofeb a

## YN Y RHIFYN HWN:

COFFÂD I GWYN H. EVANS, ROBERT JOHN JONES AC IDRIS JONES

CYMANFA GANU MANCEINION

HUNANGOFIANT BRIAN THOMAS

welir yn ymyl Doc Princes. Siaradwyd gan wyth o bobl ar y *Royal Daffodil II* ond ar wahan i Eiddwen Humphreys a Elvey Macdonald, ychydig iawn ohonom sydd yn gwybod pwy yw pwy; ond ar bnawn Sadwrn, 30 Mai clywsom y Dr. Huw Edwards, Llundain yn cyflwyno'r seremoni o ddadorchuddio y Gofeb, mor arbennig, ac yn croesawu Arglwydd Faer Lerpwl, y Cynghorydd Conception, Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones; Archdderwydd Cymru, Dr. Christine James; Cymru-Patagonia: yr Arglwydd Dafydd Wigley; Llysgennad Ariannin, Alicia Amalia Castro, Luned Vychan Roberts de Gonzales a minnau. Braint hefyd oedd clywed plant Ysgol Gymraeg yr Hendre a Chwmni Clwyd Theatr Cymru. Dim ond dau a fethodd cadw cyhoeddiad: Mrs L. Ellman, Aelod Seneddol Riverside a'r Cynghorydd Joe Anderson, Maer Lerpwl.

**iii) Cyfraniad Cwmni Peel Holdings.** Bu cydweithrediad y cwmni hwn yn allweddol a bu yn fantais iddynt hwy ac i minnau. Llwyddwyd trwy rwydwaith Peel Holdings a'm rhwydwaith ni fel Cymdeithas y Cymry i gael y cyfryngau i gymeryd diddordeb. Cysylltais â llu ohonynt, fel golygydd yr Echo, Tinopolis, BBC. Yn wir cafwyd rhaglenni cyfan o'r *Radio Cymru* a *Radio Wales* ar fore Gwener y dathlu a Chymry Lerpwl yn cymeryd rhan, dros dau ddwsin ohonynt.

**iv) Haelioni'r Cymry, Saeson a chenhedloedd eraill.** Bum yn daer yn codi'r arian dros ddeg mil o bunnoedd. Cafwyd casgliad o £809 yn Oedfa'r Bore? Onid yw hynny yn record mewn unrhyw oedfa? Yn sicr mae yn record yn ein hanes ni fel Cymry Lerpwl ers 1965? Meddyliwch na chafwyd oedfa yn Lerpwl yn 1965 i gofio taith y Mimosa o Lerpwl i Borth Madryn yn 1865? Yr holl gapeli oedd ar gael ar y Glannau a neb o'r gweinidogion o gwbl yn meddwl cynnal oedfa i wroniaid y ffydd! Yr oedd darlleniad y Canon Tegid Roberts, Llanrug o Epistol at yr Hebreaid, pennod 11, adnodau 1-10, 13-16 a 32-40 yn ddisgrifiad perffaith o'r Cymry a fentrodd ar y daith bell i'r paith a diffeithwch y tir rhwng Porth Madryn a Threlew? Ac felly canmolwch gweledigaeth ni heddiw am ofalu fod yna oedfa gofiadwy a Chymanfa Ganu a hir gofir wedi ei chynnal yn un o gapeli hynaf Lerpwl, sef capel Ysgol enwog y Bluecoat yn Wavertree.

**v) Doniau lleol.** Rhaid canmol trefnwyr Dathlu Canmlynedd sefydlu'r Wladfa am roddi cyfle i'r doniau lleol, Miss Olwen Hughes, Waterloo fel cyfeilydd a



***O'r chwith i'r dde: Dr. D. Ben Rees, Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru; Elan Jones; Llysgennad Ariannin, Ian Pollitt, yr Arglwydd Faer yn y cefndir***

Margaret Williams fel telynores a Elfed Owen fel arweinydd. Yr oedd gennym ninnau ein doniau lleol: Dr. Arthur Thomas (Ysgrifennydd y Gymdeithas) ar Nos Wener yn tanlinellu pwysigrwydd Lerpwl a gweledigaeth Peel Holdings; Roderick Owen fel Cadeirydd ac un a fu yn wynebu camerau teledu o leiaf dair gwaith; Alun Davies, Woolton a arweiniodd cerddwyr Cymdeithas Edward Llwyd ar fore Sadwrn o Otterspool i ymyl y Gofeb; R. Ifor Griffith, yn arwain y Gymanfa Ganu gyda medr cerddor sydd mor gyfarwydd a'r emynau a'r ddawnus organyddes a chyfeilydd Mrs Margaret Anwyl Williams. A Chantorion Bethel yn gwbl eneiniedig yn eu cyfraniad ac Elan Jones, Mossley Hill, gor-wyres Edwin Cynrig Roberts yn ennill ei phlwyf ar y cyfryngau, radio, teledu a'r wasg, am ei sylwadau ac am ddadorchuddio'r Gofeb yng nghwmni plant o'r Wladfa. Haedda Elan Jones yr anrhydedd gan mai hi sy'n cynrychioli y Wladfa yn Lerpwl. Yr oeddem fel Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi yn gwbl unol mai Elan a ddylai gael yr anrhydedd. Dyma awr fawr ei bywyd, yn sicr, a daeth Richard, y mab a'i deulu o Hwlffordd a'r ferch Sonia yn gefn iddi wrth y Gofeb.

**vi) Doniau Cenedlaethol.** Mae'n rhaid cael doniau a chafwyd y rhain yn y seremoni ac yn y Cyngerdd yng nghapel Ela Hall Drive ar y Nos Sadwrn. Braf oedd cael cwmni y bugail o Betws Gwerfil Goch, Trebor Edwards, sydd yn boblogaidd yn y Wladfa fel y cyfeirir yng nghyfrol Jon Gower *Gwalia Patagonia* (Llandysul, 2915). Mae ei lais yn dal yn gyfareddol. Cafodd Sion Goronwy noson i'w gofio, canwr proffesiynol, a môr o lais ganddo, yn ymgorfforiad o ganwr yn ei aeddfedrwydd. Ac yna Côr Merched Edeyrnion yn cadw'r safon, ac yn swyno'r gynulleidfa fawr. Y mae Corau ar ei gorau pan y mae cynulleidfa gref yn bresennol. A gwelsom ddoniau Alwena, y gyfeilyddes, a Manon Easter Lewis yn llywio'r cyfan mor ddi-drafferth. Arhosodd bws o Gymdeithas Gymraeg Amwythig ar gyfer y Cyngerdd, ac yr oedd eu cwpan yn llawn wrth deithio adref ar ddiwedd dwy awr wefreiddiol.

**vii) Canolfannau i'r Cyfarfodydd.** Bum yn pendroni dipyn am y canolfannau, lle y dylid cynnal y gweithgareddau. Pe bae adeiladau Bethel yn dal ar gael fe fyddai'r cyfan bron yno, a thrwy haelioni ac arwain yr Ymddiriedolwyr byddai Cymdeithas Etifeddiaeth wedi arbed cannoedd o bunnoedd. Ond y mae'r sefyllfa erbyn hyn yn wahanol. Cant ac ugain ddeil Capel Bethel, a chofiaf fi un bore Sul yn dweud wrth rai o'm cydweithwyr, pwy oedd yn bwriadu dod. Yr oedd Marli Pugh, arweinydd Côr Merched y Gaiman, wedi cysylltu a dweud fod 22 ohonynt yn dod draw, ac yna Prifathrawes Ysgol yr Hendre (Catrin Morris) yn trefnu 26 arall, a soniais fy mod wedi cael gair gyda Elfyn Thomas i drefnu bws o 50. Dyna 98 ar ei union. Ryw ddwy noson ar ôl hynny ffoniodd y ffyddlon Dr. John G. Williamns i'm hatgoffa o'r hyn a ddywedais, ac awgrymu'n gynnil fod yn rhaid meddwl am ganolfannau eraill. Ar fy union dyma a wnaed er mwyn cynnal y cyfarfod cyntaf yn Neuadd y Crynwyr, School

Lane, yr ail yn Amgueddfa Forwrol Lerpwl, yn drydydd ym mhencadlys Peel Holdings, yna Capel Elm Hall Drive a Chapel Ysgol Bluecoat a'i ystafell fwyd. Yr oedd pob cyfarfod o dan ei sang, ni fu dim byd tebyg yn ein hanes ers cenedlaethau. Cawsom gyfarfodydd mawr yn y gorffennol, fel Eisteddfod Myfyrwyr Lerpwl, Cyngerdd Côr Llanelli, Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd ond un cyfarfod ar y tro oedd y rhain. Cawsom chwech cyfarfod llewyrchus ryfeddol, un ar ôl y llall.

**viii) Peel Holdings ac Eraill.** Ein cydweithwyr fel Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth, ac onibai amdanynt, ni fyddem wedi gweld dadorchuddio y gofeb. Awgrymais yn fy anerchiad pnawn Sadwrn am y rhwystredigaethau a gafodd Arthur Thomas a minnau yn y cyfarfodydd a gawsom gan swyddogion y Gorfforaeth, Adran Cynllunio, Adran Etifeddiaeth ac yn y blaen. Ond ar ôl argyhoeddi Peel Holdings, fe newidiodd y sefyllfa, a defnyddiwyd cwmni proffesiynol i gael caniatâd cynllunio trwy'r Adran Gynllunio y Gorfforaeth. Fel y dywedwyd yn yr erthygl yn y *Liverpool Echo* ar 24 Mawrth, y cawsom y caniatad, yn rhy hwyr i wneud cais am arian Loteri. Ond roeddwn wedi rhagweld sefyllfa felly a dyna pam inni baratoi Apêl Mimosa am bum mil o bunnoedd. Yr oedd sôn y byddai Llywodraeth Cymru yn helpu ond y werin Gymraeg, fy ffrindiau ar hyd y wlad y bum mor danbaid yn ysgrifennu atynt yn bersonol, aelodau y Pwyllgor, Cymry Lerpwl, Cymry Manceinion, cymdeithasau, capeli'r Glannau (Seion, Bethel a Bethania, fel arfer yn gant y cant o'm tu) a charedigion y Wladfa a ymatebodd i'r Apêl. Y mae enwau pob un a gyfrannodd yn y rhestr a welir yn y Llawlyfr (tudalennau 49 i 52 ac yn yr *Angor* rhifynnau Mehefin a Goffennaf). Y cyfanswm wedi dyblu ond felly hefyd y costau aruthrol o gynnal Gŵyl fel hon (er enghraifft £571 i OCD Events Ltd) am gadeiriau pnawn Sadwrn, £400 i Ysgol Bluecoat am gynnal oedfa a Chymanfa'r Sul a £800 am y bwyd ar y Sul). Dim ond tair enghaifft sydd yn y fan yna – beth am gyhoeddi'r Llawlyfr, helpu Plant Ysgol yr Hendre, bws ar gyfer Côr Edeyrnion, a diolch iddynt am ei haelioni i ni a chyfraniad Trebor (llafur cariad) a Sion Goronwy (yn rhoddi hanner y swm yn ôl inni). Diolchwn i Elvey Macdonald, Cwmni Theatr, Dr. Huw Edwards, Alun Davies, R. Ifor Griffith, Margaret Anwyl Williams, Canon Tegid Roberts, Dr. John G. Williams am haelioni eithriadol a chlodforwn ei gweithredoedd da. Llafur cariad ar ei orau.

**ix) Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth Cymru Glannau Mersi.** Dyfynnaf yr hyn o ddiolch sydd yn y Llawlyfr (gan fod hwnnw wedi gwerthu allan): y swyddogion, yr eiddoch yn gywir yn Gadeirydd, Rachel Gooding (Trysorydd), Dr. Arthur Thomas (Ysgrifennydd), Mrs Nan Hughes Parry, Dr. Pat Williams, Mrs Eryl Bryn Boyd, Mrs Beryl Williams, Brian Thomas. Ysgwyddodd pob un ohonynt gyfrifoldebau. Bu Nan, Pat a Beryl yn bwydo'r Côr, ym mhob Cyfarfod, ac yn gwerthu tocynnau, a Beryl yn gofalu am werthiant y Llawlyfrau ac am y blodau. Cawsom gymorth gyda threfniadau pryd bwyd, paratoi'r byrddau, harddu ystafell fwyta gyda blodau a llieiniau hardd yn ychwanegol i'r merched gan Mrs Gwenfyl Bain a Mrs Lilian Coulthard. Yr oedd y cyflwnwyr bwyd Peter Barker a'i gwmni yn hynod o broffesiynol ac wedi paratoi digon o gynhaliaeth. Bu'r pryd bwyd yn gymorth i gadw pawb ar gyfer y Gymanfa a braf oedd cael sgwrsio. Aeth yr amser yn rhy fuan o lawer. Fel y dywedodd Luned Vychan Roberts de Gonzales (brenhines y Gaiman) wrthyf. 'Mae'n siwr fod gennych Bwyllgor da'. Ac y mae gyda ni, yn wir mae'n anrhydedd perthyn i bwyllgor mor gytûn, gweithgar, ac yn barod i fentro! Bu Dr. Arthur Thomas a'i briod Anne yn gymorth amhrisiadwy a chefais aml i lifft ganddynt i drafod yr Ŵyl, ac ni fu diwrnod bron heb ein bod mewn cysylltiad ers dechrau'r flwyddyn.



*Rhan o'r dyrfa o amgylch y Gofeb*



*Y ddau ffrind – Huw a Ben*

**x) Nodyn personol.** Cefais foddhad arurthrol, a chredaf inni weld gwyrthiau ar lan y Merswy, mwy nag un gwyrth, Cefais fwy o ganmoliaeth dros y pen wythnos nag a gefais erioed o'r blaen. Tarawodd Roderick Owen y nodyn werthfawrogol ohonof i ddechrau ar nos Wener, ac ar y Sadwrn soniodd yr Arglwydd Dafydd Wigley ar ran Cymdeithas Cymru-Ariannin ei werthfawrogiad, Dr. Huw Edwards yn ei gyflwyniad, yr Athro Huw Rees, ac yna ar y Sul, Parchedig R. W. Jones, David Mawdsley a R. Ifor Griffith. Yr un oedd geiriau Marli Pugh, Wendell Davies a Irma Roberts. Ond yr hyn a'm synnodd oedd geiriau pob un a gwrddais yn ystod y penwythnos o'r Wladfa i'n plith ni ar y Glannau a Manceinion.
Y mae'r Wladfa yn haeddu ein cefnogaeth. Y cam nesaf yn fy marn i yw efeillio Capel Bethel a Chapel Bethel y Gaiman, yr ail gam yw efeillio Lerpwl a Phatagonia trwy yr Arglwydd Faer a ninnau Cymdeithasau Cymry Lerpwl a bob pryd a gwedd. I mi dyna raglen y misoedd nesaf hyn? A ydych yn cytuno? Rhowch wybod i ni yn *Yr Angor* a fu yn amhrisiadwy i'r Ŵyl hon.

Tudalen 1-12 Gorff_Tud 8 Mehefin.qxd 21/06/2015 11:33 Page 4

Golygyddol

# CAWSOM WELD LERPWL YN YR OES AUR – gan D. Ben Rees

Dyma yn sicr yw profiad pob un ohonom a gafodd nerth i ddilyn pob cyfarfod o'r Ŵyl, a chefais i un cyfarfod yn fwy na phawb arall, sef fod yn un o'r pymtheg a wahoddwyd i barlwr yr Arglwydd Faer yn Neuadd y Ddinas. Nid oedd penaethiaid y Ddinas yn barod i ganiatau mwy na thri ar ddeg ohonom i dderbyn croeso yr Arglwydd Faer a'i briod. Rhoddwyd cyfle i Lysgenhad Ariannin a'i gosgordd o dri arall; Prif Weinidog Cymru a'i was silfil; Ian Pollitt; Archdderwydd a'i phriod, Arglwydd Dafydd Wigley a'i briod, a minnau a'r un a ddaeth i ofalu amdanaf o Lundain, Dafydd. Hyfryd oedd cael cydnabyddiaeth y Ddinas i'r gwesteion gan i Dr. Huw Edwards a'i briod fethu â dod atom gan ei bod am ddal y trên i Lundain.

Teimlwn wrth gyrraedd y tŷ am 6 o'r gloch nos Sadwrn, 30 Mai fel pe bawn wedi gweld Lerpwl yn nyddiau Lewis Jones, Hugh Cadfan Hughes, Gwilym Hiraethog yn llythrennol yn 1865 pan glywid Cymraeg ar strydoedd Lerpwl. Dros gan mlynedd cyn hynny dyna oedd byrdwn llythyron Goronwy Owen, yr hyfrydwch a dderbyniai wrth gerdded ym mysg y morwyr o Fôn ac Arfon a chlywed y Gymraeg ar y cei. Ciliodd y Gymraeg o strydoedd y ddinas, er ei bod hi ar aml i benwythnos i'w chlywed y dyddiau hyn, ond nid fel yr oedd hi pan ddaeth y gwroniaid o Aberpennar a Rhosllannerchrugog i aros am y *Mimosa* yng ngwestai Cymry'r ddinas. Gwelsom gip ar yr oes aur yn lleisiau'r Cymry a dyrrai heibio adeiladau'r Cunard a gwesty Crowne Plaza am ddiddosrwydd adeiladau Peel Holdings.

Penwythnos i'w drysori yn y cof am byth bythoedd.

Diolch am y profiad a'r gwerthfawrogiad.

# GWYN HUMPHREY EVANS
## (1926-2015)

**Pan ymledodd y newydd i Lerpwl fod y cyfaill hoff Gwyn H. Evans (felly y llofnodai ei hun) wedi ymadael a'r fuchedd hon ar fore Sul, 29 Mawrth yn ysbyty Dolgellau ar ôl cystudd byr o fis, gwyddwn fod tref y Bala, ei deulu a ninnau ei ffrindiau wedi colli gŵr gwbl anghyffredin. Wedi'r cyfan yr oedd yn ŵr busnes cyfrifol, cymwynaswr y cenhedlaethau a Chymro twymgalon, yn Annibynnwr o ran crefydd a gogwydd, ac yn gwybod hanes y Bala cystal a neb. Deuthum yn ffrindiau ag ef 45 mlynedd yn ôl pan symudodd ei Wasg i adeiladau helaeth Ysgol Tŷ Tan Domen lle y bu ef yn ddisgybl nwyfus fel y cofia dau o'm ffrindiau oedd yn gyfoeswyr ag ef. Gadawodd yr Ysgol i weithio yn Banc Barclays, ond oherwydd diffyg ar y clyw, sylweddolodd nad oedd yr alwedigaeth honno yn addas iddo. Cofiaf ef yn dweud y byddai wedi hoffi bod yn feddyg anifeiliaid ond yr oedd angen olynydd ar ei dad Idris Evans, argraffydd medrus, a mab i argraffydd arloesol arall Humphrey Evans. Cafodd ei dad brentisiaeth gyda Gwasg y Brython yn Lerpwl ac yn 1934 sefydlodd y papur wythnosol *Y Cyfnod* a wasanaethodd pum plwy Penllyn mor ffyddlon hyd y trosglwyddiad yn 2013. Ymboenodd ef cryn lawer am y papur yn ei oes ond fel un a'i derbyniodd am ddim am 30 mlynedd, presant i mi gan y cyhoeddwr, gwelwn ef yn bapur hynod o ddifyr. Gofalai fod pob agwedd o gymdeithas yn cael sylw a chafwyd teyrngedau godidog dros y blynyddoedd ar ôl gwerinwyr Penllyn. Dyna'i flaenoriaethau. Bu ef yn allweddol yn y gymuned, arloeswr Clwb Hwylio y Bala ac un o sylfaenwyr Clwb Pysgota y dref. Gwasanaethodd fel cynghorydd a dod yn Is-Gadeirydd. Pennod effeithiol. Yr oedd ganddo lygad da i dynnu llun. Bu yn ffotograffydd medrus, fel y mae ei frawd Eifion a'i fab Gareth. Ac ar sgawt i dynnu llun y teithiodd i Gwmtirmynach a chyfarfod a merch fywiog Anne Williams y Ddôl, Llansannan o deulu nodedig Hafod Elwy. O'r cyfarfyddiad hwnnw y daeth y bartneriaeth odidog, rhieni Gareth a Nia, a wyrion a wyresau, chartref cysurus, croesawus Maes yr Hedydd.**

**Fel cyhoeddwr ac argraffydd y mae'n rheidrwydd i sôn am dair ffrwd y bu ef yn ei goruchwylio yn arbennig o ganol y pumdegau ymlaen. Yn gyntaf y papurau lleol oedd ef yn berchenog arnynt, *Y Cyfnod* ac yna *Corwen Times* a *Merioneth Express,* ond hefyd gwaith argraffu arferol yn rhaglenni, Trafodion Cymdeithas Hanes y Sir, rhaglenni eisteddfodau, taflenni angladdau a tocynnau. Yn ail y papur cenedlaethol y *Faner*. Daeth y *Faner* i'w ofal yn 1958. Bu yn gymwynaswr cenedl y Cymry. Ysgwyddodd ef a'i frawd gyfrifoldeb am y wythnosolyn yr edrychem ymlaen am ei gael. Sefydlodd hefyd Llyfrau'r Faner. Cyhoeddwyd 69 o gyfrolau o ganol y chwedegau hyd ganol y nawdegau. Y mae'r casgliad yn werth ei ddadansoddi, gwaith Golygyddion Y Faner, fel Gwilym R. Jones i Jennie Eirian Davies, cyfrolau plant Buddug Medi, gwaith llenorion Penllyn o Euros Bowen i William Hughes Jones ac ambell i glasur fel cyfrolau beiddgar John Elwyn Jones. Dyna gynhaeaf toreithiog oherwydd Gwyn. Yn drydydd ei gyfnod fel arbenigwr yn myd y Byji, a'r cylchgronau hardd a olygodd a'i cyhoeddi. Teithiodd lawer yn arddangos yr adar, yn beirniadu yn y sioe adar, a daeth pobl i'w edmygu led led Ewrop a'r Unol Daleithiau.**

**Cafodd fywyd prysur, diddorol ac egniol. Arhosodd rhai o'r cysodwyr am gyfnodau hir. Yr oedd ef a'i deulu yn cyflogi pobl leol. Ni fu heb ei groesau, colli ei fam Mrs Blodwen Evans a'i chwaer ym mlodau ei dyddiau. Dyna graith nad oedd amser ddim yn ei liniaru. Ond estynai groeso cynnes, ef a Nia, i fwyty'r Cyfnod ac i Caffi'r Cyfnod yn y Stryd Fawr. Bendith arnynt am fod garedig i nifer fawr ohonom dros y blynyddoedd. Y mae arnom ddyled enfawr. Pan oeddwn yn ddifrifol wael yn 1999 teithiodd Gwyn a'i briod a'i fab i'm gweld yn fy ngwendid yn Allerton. Nid anghofiaf y weithred hardd, nodweddiadol ohonynt. Nid oeddynt yn waglaw chwaith. Cydweithais ag ef a'r cysodwyr a'r staff i gael yr *Angor* i Lerpwl, yr *Etifeddiaeth, Peacelinks* i F.O.R Lloegr, a llyfrau Cyhoeddiadau Modern. Yr oeddwn ymhlith y cwsmeriaid gorau. Edrychwn ymlaen i'w weld. Treuliais gannoedd o oriau yn ei gwmni. Edmygwn ef am ddal ati i ganol ei wythdegau yn llawn amser. Cydymdeimlwn a'i annwyl briod yn ei chaethiwed yn y cartref yn Llanrhaeadr DC, ei fab Gareth a'r teulu, ei ferch Nia Davies a'r teulu, a'i frawd Eifion a'r teulu a fu'n gyd berchenog y Wasg a'r ddau o linach argraffwyr nodedig y Bala, Humphrey Evans ac Idris Evans. Braint oedd ei adnabod a boed i Dduw gysuro ei anwyliaid yn nydd y galar.**

**D. BEN REES**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Capel Seion, Penbedw

Yr oedd llawer o aelodau Seion wedi mynd i Lerpwl i fwynhau Gŵyl y Mimosa. Y mae Mrs Dilys Askew yn dioddef o arthritis go ddrwg ond yn cael injections yn aml ac felly yn cael ysbaid am ychydig. Daeth ei merch, Angie a hi trosodd ar y trên o New Brighton i'r Maritime Museum mi gerddodd i'r Princes Dock a wedyn mynd allan i weld Mrs Elan Jones yn dadorchuddio y gofeb.

Pleser o'r mwyaf ar y Sul oedd yr oedfa yn Ysgol Bluecoat. Gwelir mwy am y gwasanaethau yn *Yr Angor.* Yn yr ystafell fwyta er syndod i lawer yr oedd Mrs Morfudd Williams yn mwynhau sgwrsio efo sawl un. Diolch yn fawr i Mr Gwyn Jones am ei chludo o Moreton. Bu Morfudd yn Nghapel Seion sawl gwaith eto trwy garedigrwydd Mr Gwyn Jones. Bu rhai yn y cyngerdd wedi mwynhau yn arw. Cafwyd oedfa cynhwysfawr yn y bore a'r Parch R. W. Jones yn pregethu.

Yn y pnawn o dan ofal medrus Mr Ifor Griffith cawsom Gymanfa Ganu gyda Mrs Margaret Anwyl Williams yn cyfeilio ar yr organ.

Ein diolch yn fawr iawn i'r holl baratoi i wneud yr ŵyl hon yn fyth gofiadwy ac yn deyrnged i'r arloeswyr cynnar ac i'r rhai sydd yn cadw yr iaith a'r traddodiadau yn fyw. Ni fuasai yr ŵyl hon wedi bod yn bosibl heb arweiniad yr Athro D. Ben Rees a Phwyllgor Etifeddiaeth Cymru Glannau's Mersi.

*(Llawenydd i laweroedd oedd gweld Mrs Morfudd Williams ar y Sul yn Oedfa Mimosa ac yn y Gymanfa Ganu yng nghapel Bluecoat. Bu o dan y don ar ôl damwain fawr ond mae bellach ar lwybr gwellhad. Bu amryw o'n plith yng Ngŵyl y Mimosa, a chyfeiriodd Dr. Rees ar yr angen i baratoi ar gyfer canmlwyddiant Eisteddfod y Gadair Ddu ym mis Medi 2017. Deallir y bydd ef yn cysylltu â ni trwy Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi rywdro yn yr hydref i ddechrau y paratoadau angenrheidiol i lwyddo fel y gwnaethpwyd yng Ngŵyl y Mimosa. Chwithdod mawr oedd colli yn yr angau y brawd caredig a chyfeillgar, Bob Jones, ac ar ôl cau Eglwys Santes Winifred byddai ef a'i briod yn dod atom i Seion. Mae gennym atgofion melys dros ben amdano, un o wir anwyliaid yr Arglwydd ydoedd.)*

## Eglwys Bethania, Crosby Road, Waterloo

Cafodd rai o'n haelodau hyfrydwch mawr yng Ngŵyl y Mimosa, o 29 i bnawn Sul, 31 Mai. Gwahoddwyd Mrs Menna Caton, Blundellsands a'r Gweinidog, yr Athro D, Ben Rees i gyfweliadau ar Radio Wales yn Amgueddfa Lerpwl ac yn Radio Cymru yn Hanover Street i siarad am y *Mimosa*. Yr oedd Menna yn un o'r rhai a fu ar y llong *Royal Daffodil II* yn 1965 (gweler ei llun ar dudalen 21 o'r Llawlyfr, hi a'i thad Mr. Gwilym Evans, Tŷ Capel Waterloo) yn dringo i'r llong. Daeth Mr. John P. Lyons i'w holi yr un bore, Gwener, 29 Mai ar Radio Cymru. Balch ydym fod Mrs Elin Boyd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi, yn ddolen gyswllt â ni fel cymuned gyda'r holl weithgarwch anhygoel a gymerodd le ar y pen wythnos bythgofiadwy. Gallwn ddweud mai da oedd inni gyrraedd Capel hardd Bluecoat ar Sul olaf mis Mai i addoli a moli Duw yn ei gysegr.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Cawsom ymweliad gan dîm BBC Cymru yn ein hoedfa bore Sul ar Fai 10. Roedd Mr. Dafydd O'Connor, Caerdydd wedi bod yma yn y ddinas ers rhai dyddiau yn paratoi at raglen deledu ar Gymry Lerpwl. Ein cennad ar y Sul hwn oedd Mr. Gareth Davies o Sutton Coldfield. Bu cyfweliad â sawl person ar ddiwedd yr oedfa. Bu'r tîm teledu yn ôl y noson ddilynol yn ymarfer Cantorion Bethel dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith. Bydd y rhaglen yn yr iaith Saesneg ar y teledu ym mis Mehefin.

Ar Fai 24 cawsom groesawu'r cyn-genhadwr, y Parchedig Victor Edwards, Penbedw, atom i'r Oedfa am y tro cyntaf. Mwynhawyd ei neges i ni a Sul y Pentecost.

Cafodd Mrs. Iona James, Aintree, driniaeth ar ei llaw yn Ysbyty Fazakerley a chafodd Mrs Lilian Coulthard a Mrs. Joyce Lewington driniaeth ar eu llygaid. Mae'r tair yn dod ymlaen yn dda iawn.

Symudodd Mrs Elan Jones o Templemore Avenue i dŷ cyfagos a bwriada alw y cartref newydd gyda'r enw penodol, Mimosa. Dymunwn iddi hi a'i merch Sonia, yn dda yn Mimosa. Da oedd gweld Mrs Elan Jones yn dadorchuddio'r gofeb yng Ngŵyl Mimosa gydag urddas.

Anfown ein cofion at bawb sydd mewn Cartref Preswyl neu'n gaethiwus i'w cartrefi. Cofiwn amdanynt yn ein gweddïau.

***Haelioni sydd yn boloni Glodfori***

## APÊL GWYL MIMOSA LERPWL 2015

Ni fu pall ar ein ffrindiau a chefnogwyr haelionus a dyma'r seithfed restr i ymddangos ar dudalennau *Yr Angor*

**Y SEITHFED RESTR (i 1/6/2015)**

1. Elen a Dr. Gwilym S. Pritchard a Noa, Penygroes, Dyffryn Nantlle....£50
2. Mrs Sioned Kenyon, Calderstones, Lerpwl....£40
3. Mrs Lywena Ashton, Rhyl....£10
4. Mr. John M. Williams, Rainhill, St. Helens....£30
5. Cintia Elizabeth Jones, Staines-upon-Thames....£50
6. Mrs Mair E. Spencer, Dinbych, Dyffryn Clwyd....£10
7. Ronald J. Phillips, Watchet, Gwlad yr Haf....£10
8. Orwg P. Owen, Gorslas ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin....£50
9. H. M. Williams, Lerpwl....£25
10. Yr Arglwydd Dafydd Wigley a'i briod Elinor, Bontnewydd....£100
11. Dr. C. P. a Mrs N. Jones....£20
12. Dr. Pat Williams, Lerpwl (ail gyfraniad)....

£405

i) Gweler y *Llawlyfr* (t. 52)
Cyfanswm y Gronfa....£9,786
ii) Gweler *Angor* Mehefin 2015 tudalen 8....£795
iii) Gweler *Angor* Gorffennaf 2015....£405
Cyfanswm (1/6/2015)....£10,986


Dyma ymateb godidog a gwerthfawr. Mynegir ein diolch ar ran Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi gan

***D. Ben Rees (Cadeirydd a Threfnydd yr Apêl), Rachel Gooding (Trysorydd), Arthur Thomas (Ysgrifennydd)***

*Coffâd*

# ROBERT (BOB) JOHN JONES

**(1926 – 2015) PENBEDW**



**Bylchwyd Cymry Glannau Mersi ym marwolaeth Bob Jones ar Sul, Ebrill 26 ag yntau wedi cyrraedd yr oedran teg o 88 mlynedd, Meddai ar ddoniau a rhinweddau arbennig, gŵr caredig, agos atoch, ymarferol ac yn barod i arwain a gwarchod ein hetifeddiaeth Cymraeg. Cynnyrch pentref Cerrigydrudion ydoedd, a'i rieni yn bobl garedig, ei fam Alice Ann a'i dad John yn weithgar, diwyd a chefnogol. Etifeddodd ei garedigrwydd oddi wrthynt, a'i ymlyniad i grefydd trwy gyfrwng Eglwys Mair Magdalen a olygai cymaint iddo ef a'i deulu. Yr oedd gan ei dad enw da fel pen garddwr yn ennill yn Sioeau Uwchaled. Etifeddodd Bob y reddf i werthfawrogi y cain a'r prydferth. Gallai amenio John Keats: 'a thing of beauty if a joy for ever'.**

**Yn Cerrig adnabyddid ef fel Bob 'Fronlwyd' ei gartref dedwydd. Addysgwyd ef yn yr Ysgol leol a llwyddodd yn Arholiad 11+ i gael mynediad i Ysgol Ramadeg Dinas Brân yn Llangollen, yr un ysgol y bu Islwyn Ffowc Ellis, y nofelydd, yn ddisgybl. Gan fod dipyn o ffordd o Cerrigydrudion i Langollen golygai ei fod yn lletya yn y dref ar hyd yr wythnos, a mynd adref y penwythnosau. Yn un ar bymtheg oed gadawodd am Benbedw i weithio yng nghwmni mawr Cammell Lairds fel prentis. Gweithiodd yn ddiwyd a dros y blynyddoedd cafodd un dyrchafiad ar ôl y llall ar sail ei allu a'i bersonoliaeth ddengar gan ddod i Adran Gweinyddiaeth y cwmni. Ymddeolodd yn 1989 ar ôl 47 mlynedd o wasanaeth clodwiw. Yr oedd yn boblogaidd iawn ac adnabyddid ef gan laweroedd o'r gweithlu.**

**Ar ymweliad â Dyffryn Clwyd yn 1953 cyfarfu â Glenys ar sgwâr Rhuthun, ac o'r cyfarfyddiad hwnnw, o fewn dwy flynedd, priodwyd hwy. A ychydig wythnosau yn ôl dathlodd y ddau 60 mlynedd o fywyd priodasol. Ganwyd mab a merch iddynt, Bryn a Shân, y ddau yn byw yn Cilgwri, a chafodd taid gysur mawr gan ei wyresau, Gema, Ceri a Lauren.**

**Yr oedd Bob yn boff iawn o bobl. Cafodd hyfrydwch mawr yn Nosbarth Arlunio yn Heswall ar bwyllgor Amddiffyn Cammell Lairds, a Grwp Cerdded Concourse West Kirby ac yn bennaf gyda Chymdeithas Gymraeg Birkenhead. Yr oedd yn aelod o'r cychwyn a bu yn Llywydd ar fwy nag un achlysur. Gwn hynny gan iddo fy ngwahodd pob tro yr oedd ef yn Llywydd i draddodi Darlith. Yr oedd ganddo ddawn siarad, yn llawn hiwmor ac yn eich gwneud yn gysurus.**

**Pan gyrhaeddodd Penbedw yn 16 mlwydd oed mynychodd Eglwys Anglicanaidd Gymraeg ym Mhenbedw lle y bu yn ffyddlon a gweithgar. Mynychodd y gwasanaethau am 66 o flynyddoedd hyd y bu'n rhaid dod â'r dystioliaeth i ben. Yr oedd wedi ymgysegru i'r Eglwys St. Winifred a phan fu farw y Parchedig David Evans cymerodd Bob y cyfrifoldeb am estyn einioes y gymuned hyd y medrai.**

**Troai ei law i bob diben. Galwyd ef yn ŵr brwdfrydig DIY, a gwelir ei gynnyrch yn ei gartref a chartrefi ei anwyliaid. Bu yn haelionus yn ei ddydd a bu fyw bywyd llawn. Yn ei waeledd olaf yr oedd yn aeddfed i'r byd tragwyddol. Lluniodd ei gefnder Dr. Robin Gwyndaf, Llandaf, Caerdydd y cwpled hon:**

*Buost fyw er mwyn eraill, heb fynd yn hen*
*A byw i rannu dy gariad a'th wên.*

**Cwpled yn ffitio Bob Jones i'r dim.**

**Daeth cannoedd o alarwyr ynghyd i Eglwys y Plwyf, St. Stephen, Prenton lle y gwasanaethwyd gan y Ficer, y Parch Wayne Lautenbach a minnau. Darllenwyd cerdd gan y wyres, Ceri Jones, teyrnged teulu gan Mrs Jenny Jones, West Kirby (merch yng nghyfraith) a minnau ar ran y gymuned, y gweithle a'r Cymry. Dilynwyd yn Amlosgfa Landican a bu'r cyfeillachu yng Ngwesty River Hill, yn Talbot Street, Penbedw. Cyflawnodd ddiwrnod da ymhlith ei gyd-genedl.**

**D. Ben Rees**

## HON

Beth yw'r ots gennyf i am Gymru? Damwain a hap
Yw fy mod yn ei libart yn byw. Nid yw hon ar fap
Yn ddim byd ond cilcyn o ddaear mewn cilfach gefn,
Ac yn dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn.
A phwy sy'n trigo'n y fangre, dwedwch i mi.
Pwy ond gwehilion o boblach? Peidiwch, da chwi,
A chlegar am uned a chenedl a gwlad o hyd :
Mae digon o'r rhain, heb Gymru, i'w cael yn y byd.
'Rwyf wedi alaru ers talm ar glywed grŵn
Y Cymry, bondigrybwyll, yn cadw sŵn.
Mi af am dro, i osgoi eu lleferydd a'u llên,
Yn ôl i'm cynefin gynt, a'm dychymyg yn drên.
A dyma fi yno. Diolch am fod ar goll
Ymhell o gyffro geiriau'r eithafwyr oll.
Dyma'r Wyddfa a'i chriw; dyma lymder a moelni'r tir;
Dyma'r llyn a'r afon a'r clogwyn; ac, ar fy ngwir,
Dacw'r tŷ lle'm ganed. Ond wele, rhwng llawr a ne'
Mae lleisiau a drychiolaethau ar hyd y lle.
'Rwy'n dechrau simsanu braidd; ac meddaf i chwi,
Mae rhyw ysictod fel petai'n dod drosof i;
Ac mi glywaf grafangau Cymru'n dirdynnu fy mron.
Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.

***T. H. PARRY WILLIAMS***

# CYMANFA GANU DOSBARTH MANCEINION

Ar ddydd Sul, 10fed o Fai, cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dosbarth Manceinion yng nghapel Noddfa Oaker Avenue o dan arweiniad Mrs Ilid Anne Jones o Glasinfryn ger Bangor. Yr organyddes oedd Mrs Lilian Garrett a'r Llywydd Mrs Mair Swift. Yng nghyfarfod y prynhawn cafwyd unawd gan Mr Trefor Davies, Altrincham, yn cyflwyno ei drefniant ei hun o'r gân Benedictus, a phleser mawr fel arfer oedd cael gwrando arno. Yng nghyfarfod yr hwyr cawsom anerchiad gan y Llywydd, yn amlinellu hanes yr Ysgol Sul o'r dyddiau cynnar hyd at yr amser pan oeddem ni yn blant, yn cyfeirio at ddylanwad yr Ysgol Sul mewn sawl maes a'n dyled ni fel Cymry iddi yn arbennig.

Defnyddiwyd rhan helaeth o'r emynau yn Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2015, ac er ein bod yn gynulleidfa fechan, cawsom ganu pedwar llais brwdfrydig o dan law ein harweinyddes medrus. Hawdd gweld fod y rihyrsals a gawsom dros misoedd y gaeaf wedi bod o fudd, a diolchwn i'r arweinyddion lleol am eu llafur. Cafwyd te blasus rhwng y ddau gyfarfod, wedi ei baratoi gan ferched y ddau gapel, a da yw cael dweud bod ein Cymanfa wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto.



***Mwynhau y te blasus!***



***Gwilym Roberts, Mair Swift, Ilid Anne Jones, Eflyn Evans, Trefor Davies. Lilian Garrett wrth yr organ.***

## Cyfarfod Blynyddol Yr Angor

**Cynhelir**
**Cyfarfod Blynyddol**
**Yr Angor**
**ar bnawn Llun,**
**20 Gorffennaf 2015**
**am 2.30 o'r gloch**
**yn Ystafell y Gweinidog**
**Eglwys Bethel,**
**Auckland Road, Lerpwl 18**
o dan gadeiryddiaeth
y Dr. John G. Williams.

Cyflwynir yr Adroddiad Ariannol Blynyddol gan Roderick Owen a diolchir am yr haelioni arferol.

*Croeso cynnes i bawb o ddarllenwyr Yr Angor.*

*Ben Hughes (Ysgrifennydd)*

## *CYDYMDEIMLAD*

Dymuna'r Golygydd a Phwyllgor Gwaith *Yr Angor* fynegi cydymdeimlad dwys gyda Mr. Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn, cysodydd ac argraffydd *Yr Angor,* yn ei brofedigaeth fawr o golli ei fam mor ddirybudd yn y Bala. Cysylltais ag ef pan ddaeth y newydd i'm cartref a chael ymddiddan bendithiol. Parhaed y cysur iddo yn y brofedigaeth. – ***Golygydd***

Myfyrdod

# BYDDED GOLEUNI

gan Elwyn Parry

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roeddwn yn Ysgol y Porth, Rhondda ac athro Gwybodaeth Ysgrythyrol oedd Gilbert Davies. Roedd yn athro o'r radd flaenaf. Roedd ganddo ddawn anhygoel o wneud pethau cymhleth yn hynod o syml, a mwyaf pwysig yn ddiddorol ac yn gofiadwy. Cofiaf un wers ar y testun "Goleuni". Fe ddechreuodd gan sôn am y Rhyfel Byd Cyntaf a geiriau Lord Grey o Falloden fod lampau Ewrop yn diffodd wrth weld cymylau duon rhyfel yn "stealing across the sky" ac roedd y lampau yn dal wedi diffodd. Roedd tywyllwch. Mae yna dywyllwch pan mae pethau mynd o chwith ac oherwydd difaterwch Dyn, ei hunanoldeb, ei walltgofrwydd. Yn y blynyddoedd yn fy mywyd bach i mae'r tywyllwch wedi bod yn dew ofnadwy – meddylier am Pacistan, Afghanistan, Falklands, Syria ac ymlaen ac ymlaen.

Y tywyllwch mwyaf creulon oedd yr hyn a brofwyd ar Galfaria. Mae'r Efengylau yn gytun wrth recordio'r ffaith bod tywyllwch dros y tir o'r chweched awr hyd y nawfed awr. Cofiaf y Parch G. H. Jones, Blaenclydach yn ei bregeth yng Nghalfaria Porth yn dweud – "Beth ddigwyddodd? Dim ond y Duw Mawr yn tynnu'r bleinds i lawr"!!! Felly mae'r tywyllwch gyda gwallgofrwydd dyn a'i greulondeb i'w gydddyn.

Mae'r Gair yn dweud yn glir fod tywyllwch yn gydymaith gyda drygioni, pechod a dioddefaint. Roedd y Groes yn y rhain i gyd, ie, lladd y diniwed gyda'r fath greulondeb.

Serch hyn mae y Groes yn ganolbwynt y paradocs sy'n crynhoi ein ffydd. Mae'r "genesis" yn mynd yn ôl i stori'r creu. Tywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder ond fe symudodd Ysbryd y Duw byw ar y dyfroedd. Duw a ddywedodd 'Bydded Goleuni' ac roedd goleuni. Efallai bod y paradocs yn fwy clir pan ddywed yn Ecsodus bod Moses yn dod yn agos i'r tywyllwch lle roedd Duw. Ymhob trychineb meddyliaf mai calon y Duw mawr ydy'r cyntaf i dorri. Mae Duw yn y tywyllwch a phwy a ŵyr mai yn nghalon yr holl terfysgoedd ceir llygedyn o oleuni fel dywed Keats "there is a budding morrow in midnight". Iesu Grist ydy Goleuni y Byd, goleuni yn ôl Sant Ioan sy'n tywynnu yn y tywyllwch ac ni ellir ei diffodd gan y tywyllwch. Gallwn fynd ymhellach. Dyna yw ein gwaith fel y disgyblion gynt i fod fel eu Meistr a goleuo'r byd a gogoneddu Duw yr un pryd.

Yn ôl, os caf, at hanesyn gawsom gan Gilbert Davies. Roedd yr ieuanc Robert Louis Stevenson yn disgwyl am ei swper ac yn edrych i lawr ar y stryd oedd yn dywyll pan ddaeth y "*lamplighter old fashion*" yn goleuo pob lamp yn y ddinas. Galwyd ef am ei swper ond dal i edrych wnaeth y bachgen "Look, look, there's a man out there punching holes in the darkness"!!! Gyfaill, dyma beth mae'n rhaid inni gyd wneud, ynte?

*A'r engyl gyda'r wawr yn gwenu-fo*
*A gerais er ys talm a gollais dro*

***CERDD GOFIADWY***

# CYMRU

Gorwedd llwch holl saint yr oesoedd
A'r merthyron yn dy gôl,
Ti a roddaist iddynt anadl
A chymeraist hi yn ôl.

Bu'r angylion yma'n tramwy,
Ar dy ffyrdd mae ôl eu troed,
A bu'r Ysbryd Glân yn nythu,
Fel colomen, yn dy goed.

Clywai beirdd mewn gwynt ac awel
Gri Ei aberth, llef Ei loes,
Ac yng nghanol dy fforestydd
Gwelent Bren y Groes.

Ei atgyfodiad oedd dy wanwyn,
A'th haf Ei iechydwriaeth las,
Ac yng ngaeaf dy fynyddoedd
Codai dabernaclau gras.

Hidlai wlith a glaw Rhagluniaeth
Ar dy gaeau ŷd a'th geirch,
A'i Ogoniant oedd ar offer
Ac ar ffrwyn dy feirch.

Bu dy gychod a'th hwyl-longau'n
Cerdded ar hyd llwybrau'r lli,
Ac yn llwythog tan eu byrddau
Farsiandïaeth Calfari.

Duw a'th wnaeth yn forwyn iddo,
Galwodd di yn dyst,
Ac argraffodd Ei gyfamod
Ar dy byrth a'th byst.

Mae dy saint yn dorf ardderchog,
Ti a'i ceri, hi a'th gâr,
Ac fe'u cesgli dan d'adenydd
Fel y cywion dan yr iâr.

D. GWENALLT JONES.

# Noa Gwilym Pritchard

Ar 10 Chwefror ganed Noa Gwilym Pritchard, mab bach i Gwilym ac Elen Pritchard, Llwyn Onn, Penygroes. Fe'i ganed yn Ysbyty'r Merched Lerpwl gan ei bod eisoes yn hysbys fod nam difrifol ar galon Noa ac annormaledd ar ei freichiau. Pan yn 13 niwrnod oed cafodd Noa lawdriniaeth i gywiro ei galon. Peidiwyd ei galon yn fwriadol ddwywaith a llwyddwyd i atgyweirio calon Noa gyda darnau corff dynol a buchol. Ail-ffurfiwyd ei fwa aortig a chaewyd twll yn ei galon. Yn anffodus, oherwydd natur y llawdriniaeth ar y galon, cafodd Noa dorgest a bu'n rhaid cael llawdriniaeth eto wedi pythefnos. Bydd Noa yn gweld llawfeddyg 'plastig' cyn bo hir i weld beth ellir ei wneud i gywiro'r diffyg ar ei freichiau.

Erbyn hyn, mae'r bychan adref ac yn mwynhau pob eiliad yn setlo mewn yn Nyffryn Nantlle. Mawr yw clod y teulu i waith arbennig staff Ysbyty Alder Hey; ni ellir ei roi mewn Cymraeg cymaint yw ei gwerthfawrogiad o gael dod a'r mab bach adref.

Yn ystod cyfnod anodd fel hyn ers canfod y problemau ar sgan beichiogrwydd 20 wythnos, mae'n dod yn amlwg eto mor ffodus yr ydym o'n teulu a ffrindiau, eglwysi a'n gweithleoedd a chymunedau. Mae pobl ardaloedd clos fel hyn i'w trysori. Bu sawl capel ac eglwys yn gweddïo dros adferiad Noa. Bu capel Cymraeg Bethel, Lerpwl, ac yn enwedig y blaenor Dr J. Williams a'u cennad y Parch Athro D. Ben Rees yn gartref ysbrydol a ffynhonnell gobaith i'r teulu bach.

*o bapur bro Lleu. Mai 2015 (gyda chaniatad)*

**RHIFYN NESAF – LLUNIAU LU**

Daw y lluniau a dynnwyd ar Ŵyl y Mimosa gan y Dr. John G. Williams a Ramond Farley yn Rhifyn yr Haf o'r *Angor.* Bydd y rhifyn hwnnw â rhai tudalennau lliw.
Rhifyn yr Eisteddfod fydd hwn.

# CORNEL Y TRYSORYDD
## Gorffennaf 2015

| | |
|---|---|
| Dr Idris a Mrs Glenys Williams, Prenton | £20.00 |
| Rhodd Eglwys Bethania, Lerpwl | £50.00 |
| Miss Margaret Quayle, Waterloo | £5.00 |
| Mr a Mrs Jim Boyd, Waterloo | £5.00 |
| Mrs a Mrs Idris Roberts, Allerton | £25.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg, Manceinion | £150.00 |
| Mr Alun Owen, Burscough | £15.00 |
| Mrs Glenys Jones, Prenton | £15.00 |
| Mr a Mrs Glyn Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Er Côf am John Price Lloyd, Benllech | £20.00 |
| Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton | £25.00 |
| Mrs Mair Jones, Childwall | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£375.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**



***O flaen y Gofeb hardd***



***Gwelir yn y llun Irma Roberts, Y Wladfa a Richard Jones, Hwlffordd (mab Elan Jones)***

*Lluniau gan: Rhys Llywelyn a Dafydd Ll. Rees*

# MEDDYLIWCH

*gan Ken Williams*

Meddyliwch am fyd heb gân yr aderyn
Na heulwen na seren uwchben
Na Iâr Fach yr Haf yn disgyn ar flodyn
A Bethel – heb Roderick a Ben. (ac eto)

Meddylich am fyd heb liwiau yr enfys
A'n trefi, hen gapel a llan
Na murmur yr afon yn sibrwd ei neges
A Bethel – heb Meinwen a Nan. (ac eto)

Meddyliwch am fyd heb flodau y berllan
Na'r ŵyn bach yn prancio yn llon
Ar ddechrau y gwanwyn, a gwlith dros y meysydd
A Bethel – heb Elan a John. (ac eto)

Meddyliwch am fyd heb Feibl i'w darllen
A'r baban ar wely o wair
A llyfrau emynau, heb dôn Pantycelyn
A Bethel – heb Norma a Mair. (ac eto)

Tudalen 1-12 Gorff_Tud 8 Mehefin.qxd 21/06/2015 11:33 Page 10

***Darn o Hunangofiant Brian Thomas***

# DYDDIAU DYSGU YN YSGOL ARBENNIG BROOKSIDE YN FAZAKERLEY



## Pennod 2

Yn yr hen ddyddiau, cyn i Harold Wilson basio ei Ddeddf Addysg enwog yn gorfodi pob Awdurdod Addysg yn y wlad i drefnu fod pob plentyn gael ei addysg mewn ysgol, y drefn oedd fod plant a oedd ac I.Q. llai na 75 yn cael eu gwahardd rhag mynd i ysgol gyffredin i dderbyn unrhyw fath o addysg. ‘Roeddynt i gael eu gwarchod gan yr Weinyddiaeth Iechyd, a chael eu sefydlu mewn Canolfannau Hyfforddi Ieuenctid, ac ar ôl cyrraedd oedran o 16 yn cael eu hanfon i ,‘Adult Training Centre.” ‘Roeddynt yn cael eu galw yn “Ineducable”. Meddyliwch am Feddyg yn gorfod dweud wrth Fam plentyn, “Your Child is ineducable and will be looked after by the Ministry of Health”. Sôn am sustem anwaraidd oedd yn torri calon pob Mam. ‘Roedd plentyn efo I.Q. o 74 yn ‘ineducable’, a phlentyn efo I.Q. o 75 yn cael mynd i’r ysgol.

Wel, Ysgol oedd Brookside oedd yn cynnig addysg i fechgyn hefo I.Q. o 75 i 100. Felly ‘roedd plentyn efo I.Q. o gant neu fwy yn mynd i Ysgol gyffredin leol. Yn yr Ysgol yma dois ar draws engreifftiau o’r athrawon gorau, a hefyd y rhai gwaethaf, a ddois ar eu traws. Dyma ychydig o engreifftiau o’r goreu a’r gwaethaf. ‘Roedd y Prifathro yn Gymro yn dod o Bwcle yn Sir Fflint. ‘Roedd yn trafaelio bob dydd o Bwcle ac yn cyrraedd yr Ysgol tua hanner awr wedi deg bob dydd, os oedd wedi cael siwrna dda, ac yn cychwyn adref bob dydd am dri o’r gloch! Y Dirprwy, oedd fwy neu lai yn gyfrifol am redeg yr ysgol, ac ‘roedd gennyf feddwl y byd ohono ef. Efe fyddai’n trefnu pob achlysur, ac ‘roedd ganddo feddwl mawr o’r plant. Byddwn yn mynd a chriw da o’r hogiau i Golomendy bob blwyddyn am wyliau, yr unig wyliau a fyddai y rhan helaeth ohonynt yn ei weld. ‘Roedd ganddo Fasgiad Fawr Sgwâr, a chaead arni, a byddai yn hel dillad plant o bob man drwy gydol y flwyddyn, ac yn eu cadw yn y fasgiad fawr. Pan ddeuai’n amser Colomendy, byddai yn didoli’r dillad yn ofalus, yn gasgliadau bychain ac yn rhoi enwau’r plant arnynt. Byddai’r plant tlotaf yn cael eu gwisgo ganddo ac heb yn wybod i neb, ni fyddent yn tynnu sylw at eu tlodi. Byddai rhai ohonynt yn troi i fyny heb ddillad. Byddai Ernie Roberts yn gwneud yn siwr y byddent yn cadw eu hunan-barch. Ef oedd un o’r athrawon a ddysgais fwyaf oddiwrtho yn fy ngyrfa. Bu imi feddwl lawer gwaith wedyn, beth fuasai Ernie yn ei ddweud, neu ei wneud? ‘Roedd wedi bod yn Baratrooper adeg yr Ail Ryfel Byd, ac yn un o’r rhai a ddisgynnodd yn Arnhem, yn yr Iseldiroedd. Cafodd ei anafu gyda ‘Bayonet’ cyn ei gymeryd i’r ddalfa. Cafodd driniaeth heb anaesthetic tra’n garcharor, cyn cael ei ryddhau yn 1945. Edmygwn ef ar lawer lefel.

Deuai’r plant i’r Ysgol gyda bysiau bob dydd, ac yn dod o gyfeiriad, KIRKBY, FAZAKERLEY, AINTREE, WALTON a llawer o gyfeiriad SCOTTIE ROAD. Byddwn i yn trafaelio ar y bws rhif 25 o Aigburth Vale bob dydd ac yn codi rhai o’r plant pan fyddai’r bws yn mynd ar hyd Scottie Road a mynd i fyny am Everton Valley. Byddai’r hogiau yn dod i eistedd ataf ac yn llawn o storïau, cofiaf yn dda amdanynt yn sôn am gantores addawol oedd yn dod o Scottie ac yn canu yn y clybiau, a’i henw oedd Priscilla White. ‘Roeddwn felly wedi clywed amdani ymhell cyn iddi ddod yn Cilla Black. “That’s where she lives Sir!”, a phwyntio at ‘flat’ uwchben siop barbwr. A chofiaf hefyd y bore oedd hi yn yr ‘Hit Parade’ am y tro cyntaf, a’r plant yn dweud wrthyf “Look Sir, they’ve got new curtains.”

Yr eitem gyntaf ar y ‘Time-Table’ bob bore Llun a phob p’nawn Dydd Gwener oedd, “Showers”, a byddai bob Dosbarth yn ei dwrn yn cael cawod, a byddwn hefyd yn cael gwers nofio ym mhwll nofio y *Cottage Homes*. Felly ‘roeddem yn gallu cadw cyrff yr hogia’n lân, beth bynnag fo’u cefndir.

Beth am yr addysg oeddynt yn ei gael? Wel rhaid imi ddweud ei fod yn ddigon bratiog. Cofiaf am un athro, oedd yn Gymro ac yn dod o Wrecsam, o’r enw Ray Jones, ei ffug enw oedd, ‘Jones the Stick’. Byddai’r gansen yn ei law o fore hyd ddiwedd y dydd. Byddai ei fwrdd du i fyny bob dydd a’r un syms arno, a byddai’n newid y ffigyrau bob yn hyn a hyn, er mwyn gwneud y syms yn wahanol. Cofiaf un arall, Gwyddel o’r enw Arthur Doyle, a fyddai’n cysgu yn aml erbyn y p’nawn wrth ei ddesg a byddai’r plant yn gwacio’r ystafell heb ei ddeffro, a mynd adref yn ddistaw. Byddwn innau’n agor ei ddrws ac yn gweiddi, “Time to go home Arthur.”

Cofiaf dro arall, mynd a’m Dosbarth i nofio, ac wrth fynd i mewn i’r pwll, gweld bachgen ym man dyfnaf y pwll, yn fflotio a’i ddwylo ar led. Dweud wrth un o’m hogiau, “Get him, quick!”, a hwnnw yn neidio’i mewn yn ei ddillad, a dod a’r plentyn i’r lan, rhoi cymorth cyntaf iddo a dod a fo’n ôl i dir byw. Mewn dim o amser byddai’r bachgen hwnnw wedi boddi. Fel bo’r lwc ‘roeddem mewn pryd i arbed ei fywyd. Y ddau athro oedd i fod yn gyfrifol am y wers, “Jones the Stick,” ac Arthur Haley yn eistedd ar y fainc ochr bella i’r pwll, y ddau efo cotiau llaes a hetiau am eu pennau, yn dal i siarad fel petai ddim byd wedi digwydd. Dweud beth oedd wedi digwydd wrth y Prifathro, ar ôl cymryd cyngor gan y Dirprwy a hwnnw’n deud, “Is he alright now?” “Yes”, meddwn innau, “Oh! that’s alright then.” meddai.

Ar ôl bod yno am ddwy flynedd, gofynnodd y Prifathro imi sefydlu Dosbarth arbrofol, gan ddysgu dim byd arall ond darllen i’r hogiau. Dechreuais efo ugain o fechgyn ym mis Medi, o bob oed, wedi eu dewis yn arbennig am eu bod yn rhoi argraff eu bod yn addawol. Y nod oedd ceisio eu cael yn ôl i Ysgol Gyffredin lleol canys, os byddent a gallu darllen dros lefel gyffredino ddeg oed neu well, ‘roedd yn bosibl eu cael yn ôl i’w hysgol leol. ‘Roedd hi’n bosibl cael eu ‘referio’ i’r Meddyg Ysgol er mwyn cael eu harholi, fel yn gymwys i ddychwelyd yn ôl at eu cyfoedion lleol, fel eu bod yn cael ‘madal a’r Ysgol heb orfod cario stigma o fod yn ddisgybl y ‘Special School’. ‘Roeddynt yn sicr o gael gwell swydd o’r herwydd.

Erbyn y Mis Mehefin y flwyddyn ganlynol, dim ond pump oedd gennyf ar ôl yn y Dosbarth, a hynny yn profi nad oedd yr hogiau yn E.S.N. o gwbl. Y drafferth oedd nad oeddynt yn gallu darllen yn ddigon da, ac wedi cael eu nodi yn E.S.N. ar gam. Cofiaf Hilda yn dod adref ryw ddiwrnod ac yn dweud fod ei Phrifathrawes hi wedi deud, “Don’t you dare teach him to read, or else we’ll never get him to a Special School.”

Erbyn diwedd y flwyddyn honno ‘roeddwn wedi cael fy enwebu i wneud cwrs llawn amser mewn Addysg Uwch, ym Mhrifysgol Lerpwl, am flwyddyn gyfan. Cwrs ymchwilio ymhellach i Addysg Arbennig oedd y cwrs hwn

Pan ddychwelais ar ddiwedd y flwyddyn honno, cefais gyfweliad a’m penodi yn Athro gyda Chyfrifoldeb Arbennig, i Ysgol Queensland Street, yn ymyl lle mae siop Taskers heddiw yn Wavertree. A soniaf am yr Ysgol yno y tro nesaf.

*(i’w barhau)*

*Coffâd*

# IDRIS JONES (1924 – 2015)

## ASHTON-IN-MAKERFIELD

**Yr oedd Idris Jones yn gynnyrch bywyd Cymraeg Ashton-in-Makerfield, pentref glofäol yr adeg honno, lle ceid tri capel Cymraeg. Perthynai ei rieni Arthur a Myfanwy Jones i gapel y Presbyteriaid Cymraeg, Carmel ac yno y cafodd y mab ei gyflwyno i'r iaith, diwylliant, cerddoriaeth, a chrefydd y Methodistiaid Calfinaidd.**

**Daeth i werthfawrogi cerddoriaeth. Meddai ar lais bendigedig. Yn ei ieuenctid chwaraeai y fiolin a chlywyd ei fedr ar yr offeryn hwnnw yn nyddiau yr Ysgol a'r Coleg. Gan fod gwreiddiau'r teulu un Ynys Môn treuliai ei wyliau ysgol yno, a bu ei gyfnither, Ceinwen, yn ffrind da iddo yr adeg honno ac ar hyd ei oes.**

**Addysgwyd ef yn yr Ysgol leol a Ysgol Ramadeg Ashton. O Ashton yn 1943 cafodd fynediad i Goleg Normal, Bangor a byddai'n cyfeirio'n aml at y ddarpariaeth a gafodd. Ei ddymuniad mawr yn 1942 oedd cael ymuno â'r Lluoedd Arfog. Nis derbyniwyd a hynny ar sail ei olwg. Dioddefodd gyda'i lygaid ar hyd ei oes. Ond bu'r Rhyfel yn llenwi ei feddwl weddill ei oes a byddai'n cyfeirio yn aml at hynny yn ei sgyrsiau. Yr oedd un o wylwyr y rhaglen *Dad's Army* ar y teledu, ac ni chollai un o'r rhaglenni ar nos Sadyrnau.**

**Yn y Coleg ym Mangor cyfarfu gyda Kathleen Margaret Williams (a adnabyddir gyda'r enw Peggy). Priodwyd hwy yn 1949. Bu'r ddau yn briod yn 62 mlynedd, braint fawr, ac ni lwyddodd i oresgyn ei hiraeth amdani ym mis Mawrth 2012. Derbyniais groeso yn ei cartref yn 17 Winchester Avenue, pan ddeuwn i bregethu i Carmel, ac yna dro arall, ar draws y ffordd gyda ei rieni Arthur a Myfanwy Jones.**

**O Fangor daeth Idris yn ôl i'w filltir sgwâr, a bu'n athro ar y dechrau yn Lerpwl, yna yn Ysgol Richard Evans yn Haydock, cyn ei apwyntio yn Brifathro (fel y bu ei dad) yn Grange Valley o 1965 hyd ei ymddeoliad yn 1988. Etholwyd ef yn flaenor yn Carmel yn 1965 ac felly eleni dathlodd 50 mlynedd yn y swydd. Braint fawr oedd cael pregethu yng Ngharmel, Arthur Jones wrth yr organ, Idris yn codi'r canu gyda tanbeidrwydd, a'i briod Peggy a'r mab Dewi (cannwyll llygaid y ddau) a Mrs Myfanwy Jones yn y sedd. Bu yn Ysgrifennydd Cymdeithas Gorawl Ashton a gelwid am ei wasanaeth yn gyson gyda Chôr Meibion Haydock.**

**Pan ddaeth dyddiau uno Carmel a St. Helens Junction, symudodd yno gan ei bod yn cydweithio yn gyson gyda Chymanfa Ganu Dosbarth St. Helens, sefydliad y bu ef yn gefn mawr. Pan ddaeth dyddiau symud adnoddau St. Helens Junction i Bethel, Heathfield Road, Lerpwl cytunodd â'r awgrym o ddod i blith blaenoriaid Bethel. Teithiodd i Bethel am flynyddoedd ond bu'n rhaid iddo roddi gorau i ddreifio a chawsom ei amddifadu o'i gwmni. Ond nid anghofiodd ei haelioni a byddwn yn galw ddwy waith y flwyddyn i'w bugeilio.**

**Meddyliai yn fawr o'i deulu, a bu Dewi a'i ferch yng nghyfraith Kath yn ofalus iawn ohonynt. Dirywiodd ei iechyd yn 2014 a bu'n rhaid iddo symud i gael gofal parhaol yng Nghartref Nyrsio Lymewood Court, yn Haydock. Canmolai yn fawr y gofal a'r staff, y nyrsus, yn wir pawb, a'r gair cyson ar ei wefusau oedd 'marvellous'. Edrychai ymlaen i ymweliad ei wyrion a'i wyresau, Kate, James, David, Matthew a Bethan. Teithient o Lundain, Cannock, Cymru ac o'r cyffiniau i weld Taid a chodi ei galon.**

**Treuliodd oriau olaf ei oes yn Ysbyty Whiston, ac yno y bu farw ar ddydd Mawrth, 28 Ebrill. Bu'r arwyl o dan fy ngofal yn Amlosgfa Wigan ar fore Llun, 11 Mai o dan fy ngofal. Talwyd teyrnged o goffadwriaeth iddo ar fore Sul, 3 Mai, a bellach dim ond pedwar o aelodau Carmel sydd ar dir y byw ac y mae ei fab Dewi Jones, Newton le Willows yn un ohonynt. Yr oedd marw Idris bron yn ddiwedd pennod ar un o ganolfannau y Cymry.**

**D. Ben Rees**



*Idris a Peggy*

## DILYN FFORDD TANGNEFEDD: CANMLWYDDIANT CYMDEITHAS Y CYMOD 1914-2014

**Y Gyfrol werthfawr**

Dyma gyfrol nodedig yn hanes cenedl y Cymry. Ceir ysgrifau amrywiol ar y dystiolaeth heddychol a phortreadau o rai o gewri Cymdeithas y Cymod yn yr ugeinfed ganrif ac i'n dyddiau ni. Gwelir lluniau ohonynt tu fewn i'r gyfrol a phump nodedig ar y clawr: George M.Ll. Davies, Gwynfor Evans, D.R. Thomas, Arfon Rhys a Waldo Williams. Cawn ein cyfareddu gan ddaioni a dyfalbarhad Cymdeithas y Cymod trwy ddwy Ryfel Byd erchyll a rhyfeloedd eraill a ddaeth i ddinistrio a lladd yr ifanc, y diniwed, y plant a'i rhieni. Golygwyd y gwaith gan un o'r heddychwyr a fu ers dyddiau Ymgyrchu yn erbyn Arfau Niwclear ar y maes, y Parchedig Athro D. Ben Rees, Lerpwl a diolchgar ydyw ef am fraint a roddwyd iddo a'r holl waith o gael y gyfrol hon i'ch dwylo yn arbennig cymhorth Robin Gwyndaf a Gwyn Griffiths. Gwyddom y caiff y gyfrol sylweddol hon groeso mawr am ei bod yn adrodd stori arwrol ym ein hanes am ganrif o amser. Daw allan yn ystod y sylw a roddir i'r Rhyfel Byd Cyntaf ond nid yw'r hanes yn gyflawn heb adrodd dioddefaint y gwrthwynebwyr cydwybodol a'r heddychwyr digymrodedd. Ymgais yw'r gyfrol hon hefyd i adnewyddu ein ymroddiad ni fel Cymry Cymraeg i dystio i'r 'ffordd dra ragorol'.

Trysor o gyfrol, a her o'r newydd i bob un ohonom.

***Dr Robin Gwyndaf***

Pris y gyfrol : £15

Tudalen 1-12 Gorff_Tud 8 Mehefin.qxd 21/06/2015 11:33 Page 12

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2015. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Awst/Medi 2015 –** erbyn bore Mercher, 1 Gorffennaf – neu ar y we i benatgarthdrive@ talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Hydref 2015** – erbyn bore Mawrth, 1 Medi 2015 – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Tachwedd 2015 –** erbyn bore Iau, 1 Hydref 2015 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## CYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL 2015

**Cynhelir y gystadleuaeth uchod yng Nghlwb Golff Woolton, Ffordd Speke,**
**Lerpwl L25 7TZ**
**ar Ddydd Mercher,**
**16 Medi.**





Mae'n agored i ferched a dynion.
**ELW AT WAITH YSBYTAI LERPWL I GYMRY LERPWL A CHYMRU**
Cost £35 yr unigolyn neu £150 am dîm o bedwar yn cynnwys cinio ysgafn, gêm 18 twll, swper a gwobrau anhygoel !!
*Am fwy o fanylion cysylltwch â Dr John Williams ar*
doctorjohnwilliams@btinternet.com

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*



# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514